Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Meithrinfa Cyn-ysgol Princess Road**

**4–6 Princess Road**
**Hen Golwyn**
**Bae Colwyn**
**LL29 9PS**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

**This report is also available in English**



## Dyddiad Cyhoeddi

**19 Gorffennaf 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gellir gweld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gellwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.*

*Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Meithrinfa Cyn-ysgol Princess Road yn gweithredu o safle preswyl mawr, sydd wedi cael ei newid yn benodol i gael ei ddefnyddio fel darpariaeth gofal plant. Mae wedi ei leoli mewn ardal breswyl o Hen Golwyn, Conwy ac wedi ei gofrestru i ddarparu gofal i hyd at 65 o blant iau na 12 mlwydd oed. Mae'r gwasanaeth ar agor rhwng 8.30am a 6pm ddydd Llun i ddydd Gwener, ac yn cau ar wyliau banc ac am wythnos dros y Nadolig. Mae'r gwasanaeth yn cynnig lleoedd Dechrau'n Deg i blant dyflwydd oed a hwylusir trwy sesiynau cylch chwarae a gynhelir yn y gwasanaeth rhwng 9am a 11.30am ac 1pm a 3.30pm ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod tymor yr ysgol. Darperir hawl addysg blynyddoedd cynnar yn y gwasanaeth hwn hefyd, i blant tair blwydd oed a hŷn, a arolygir gan Estyn.
Ms Pauline Wilson yw'r person cofrestredig ar gyfer y gwasanaeth, a hi yw'r person â gofal am reoli'r gwasanaeth o ddydd i ddydd hefyd. Darperir y gwasanaeth trwy gyfrwng y Saesneg ac nid yw'n darparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg ar hyn o bryd.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae llesiant y plant yn cael ei ystyried a rhoddir cyfleoedd iddynt ryngweithio, chwarae a mwynhau eu dysgu wrth deimlo'n ddiogel. Gofelir amdanynt mewn ffordd sy'n fagwrol ac sy'n rhoi ystyriaeth i'w hoedrannau a'u camau datblygu. Gofelir am y plant mewn amgylchedd sy'n diwallu eu hanghenion sylfaenol ac sy'n rhoi lle iddynt archwilio. Mae ganddynt fynediad at amrywiaeth eang o adnoddau diddorol a difyr. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod gofynion rheoleiddio yn cael eu bodloni, bod staff yn cael eu recriwtio'n ddiogel ac yn brydlon a bod partneriaethau gyda rhieni ac asiantaethau eraill yn cael eu datblygu i sicrhau'r canlyniadau gorau i'r plant.

### 2. Gwelliannau

Mae rhai staff wedi derbyn arfarniadau blynyddol a sesiynau goruchwylio ers yr arolygiad diwethaf, mae arfarniadau staff eraill wrthi'n cael eu cynnal ac mae'r person â gofal yn gobeithio gorffen y rhain yn fuan.

Hysbyswyd y person â gofal ar ôl ein hymweliad arolygu cyntaf ein bod wedi canfod drysau tân wedi eu cadw ar agor a bod golch y feithrinfa yn sychu o flaen yr allanfa dân i fyny'r grisiau. Codwyd hyn gyda'r person â gofal a chanfuwyd gennym yn ystod ein hail ymweliad arolygu fod yr holl ddrysau tân wedi eu cau a bod yr allanfa dân yn glir. Mae'n rhaid i'r arweinwyr sicrhau bod y gweithdrefnau hyn yn parhau i gael eu dilyn.

Nodwyd gennym yn ystod ein harolygiad cyntaf nad oedd y cwrt yn cael ei ddefnyddio gan y plant er bod y plant yn gofyn i gael chwarae yn yr awyr agored. Trafodwyd hyn â'r person â gofal a ddywedodd fod yr ardal hon yn cael defnydd da fel rheol. Canfuwyd gennym yn ystod ein hail ymweliad arolygu fod y man hwn yn cael ei

ddefnyddio’n dda gyda’r plant yn chwarae’n hapus gyda llong môr-ladron mewn hambwrdd dŵr.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Rydym wedi gwneud argymhellion ynghylch cynnal a chadw’r amgylchedd, rhai agweddau ar ddiogelwch yn yr amgylchedd a gweithdrefnau’n gysylltiedig ag amser byrbryd. Rydym hefyd wedi gwneud rhai argymhellion ynghylch rhai dogfennau a gweithdrefnau rheoli heintiau a nodir o dan adran 5 yr adroddiad hwn.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Gwrandewir ar y plant ac maent yn gallu gwneud rhai dewisiadau. Maent yn gyfarwydd â'u hamgylchiadau ac yn symud o gwmpas yn rhydd. Mae'r plant yn fodlon, wedi ymlacio ac yn teimlo'n ddiogel. Maent yn dysgu i ddatblygu synnwyr o dda a drwg ac yn ymddwyn yn dda. Cyflwynir gweithgareddau iddynt ac maent yn chwilfrydig yn eu cylch ac yn eu mwynhau. Maent yn dysgu i ddatblygu yn emosiynol ac yn gymdeithasol ac yn gwneud dewisiadau annibynnol.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan y plant lais?

Mae'r plant yn mynegi safbwyntiau yn hyderus ac yn cyfrannu at themâu a phynciau.

Gwelsom blant yn cymryd rhan mewn wythnos â thema 'Môr-ladron a Môr-forynion' a gynlluniwyd gan y staff o ganlyniad uniongyrchol i'r plant yn mynegi diddordeb mewn digwyddiad lleol â thema Môr-ladron. Roedd yr holl blant yn symud yn rhydd rhwng teganau a gweithgareddau o ddiddordeb iddynt ac yn hapus i wneud hynny'n annibynnol. Roedd gan blant hŷn rwydd hynt i archwilio holl lawr daear y ddarpariaeth ac fe'u gwelwyd yn symud rhwng ystafelloedd yn hyderus i weld beth oedd ar gael ac i chwarae â'r teganau a chymryd rhan yn y gweithgareddau. Roedd y plant yn mynegi dymuniad i 'fynd allan' yn gyson, ond er y gwrandawyd ar hyn ac y'i cydnabuwyd gan y staff, nid oedd y plant yn gallu mynd allan i chwarae gan nad oedd y cwrt wedi cael ei baratoi yn barod ar eu cyfer. Roedd hyn wedi gwella yn ystod ein hail ymweliad arolygu, gyda'r plant yn gallu mynd allan i'r cwrt i gymryd rhan mewn chwarae dŵr a gweithgareddau eraill o'u dewis trwy gydol y sesiwn dewis rhydd.

Ar y cyfan, mae'r plant yn gallu gwneud dewisiadau a phenderfyniadau yn weithredol a dilyn eu diddordebau, gan eu bod yn gwybod y bydd rhywun yn gwrando ar eu safbwyntiau.

### 1.2 I ba raddau mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant wedi setlo, yn ymdopi'n dda â chael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni ac maent yn dechrau datblygu cyfeillgarwch.

Roedd yr holl blant wedi setlo ac yn brysur. Canfuwyd gennym eu bod yn gadael eu rhieni yn hyderus ar ddechrau'r sesiwn a'u bod yn gyfarwydd â'r gwasanaeth, a oedd yn gwneud iddynt deimlo'n ddiogel. Gwelsom ddau blentyn yn cofleidio; gwenodd un arnom gan ddweud yn hapus 'mae hi newydd fy nghofleidio'. Dywedodd plant eraill a oedd wedi rhoi eu breichiau o gwmpas ysgwyddau ei gilydd eu bod yn 'ffrindiau' a oedd yn bleser i ni ei glywed a'i weld. Gwelsom blentyn yn eistedd ar lin aelod o staff i gael cofleidiad, roedd y plant wedi ymlacio ac roedd yr ymlyniadau o hoffter yn amlwg. Gwelsom un plentyn yn troi ei ben i ffwrdd yn ystod amser byrbryd gan nad oedd eisiau'r satswma a oedd yn cael ei gynnig iddo. Fe'i hanogwyd i ddweud 'dim diolch' wrth y plentyn a oedd yn cynnig y ffrwyth

a gwnaeth hynny'n hyderus gan ei fod yn gwybod y byddai ei ddymuniadau'n cael eu parchu.

Caiff y plant eu hannog i ddatblygu cyfeillgarwch a hyder mewn ffordd ddiogel a magwrol.

### 1.3 Pa mor dda mae'r plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn dysgu i ryngweithio â phobl eraill, gan ddatblygu dealltwriaeth o sut i gymryd eu tro a rhannu.

Arsylwyd ar y plant gennym wrth iddynt chwarae yn yr awyr agored a nodwyd eu bod yn cymryd eu tro yn dda ar y beiciau tair olwyn a'r ceir bach. Roeddent yn cydweithredu'n dda â'r staff, gan wrando'n dawel yn ystod amser stori a helpu i dacluso'r teganau ar ddiwedd pob sesiwn. Roedd y plant yn trin y teganau a'r offer mewn ffordd barchus ac yn cael mwynhad o'r teganau a'r gweithgareddau a oedd ar gael iddynt. Roeddent yn ymddwyn yn dda ac yn gwybod y byddent yn cael eu cynorthwyo gan y staff i ddod o hyd i atebion priodol i unrhyw anawsterau a allai fod ganddynt. Er enghraifft, pan oedd rhywun arall yn eistedd yn y gadair yr oeddent yn eistedd ynddi yn gynharach.  Fe'u clywyd yn defnyddio eu moesau ac roeddent yn foesgar ac yn gyfeillgar wrth ei gilydd ar y cyfan. Eisteddodd y plant yn wynebu ei gilydd yn ystod sesiynau grŵp a oedd yn eu galluogi i ryngweithio â'i gilydd ac ymuno â'r gweithgaredd gyda'i gilydd.

Mae'r plant yn datblygu dealltwriaeth o ymddygiadau sy'n dderbyniol yn gymdeithasol ac yn mwynhau'r profiadau y maent yn eu rhannu â'u ffrindiau o ganlyniad.

### 1.4 I ba raddau mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu?

Caiff y plant eu hwyluso i ddod yn ddysgwyr chwilfrydig.

Dywedodd y plant wrthym eu bod yn mwynhau chwarae gyda'r tambwrîn, yn y tywod ac 'ar y glas' sef y man yn yr awyr agored. Roedd y plant yn cael cyfnodau estynedig o chwarae di-dor a gychwynnwyd gan y plant. Gwelsom ddau o blant yn addysgu'r lliwiau ar y goleuadau traffig i'w gilydd; chwaraeodd un plentyn ran yr athro gan ofyn 'pa liw yw hwn?', atebodd y plentyn yn gywir a derbyniodd glapiau o ganmoliaeth a 'merch dda' am ei hymdrechion. Roedd y plant yn hapus i chwarae ar eu pennau eu hunain neu ochr yn ochr â'i gilydd gyda fawr ddim mewnbwn gan y staff. Roeddent yn gallu cynnal diddordeb yn y dasg a ddewiswyd ganddynt am gyfnod priodol o amser cyn parhau i archwilio gweithgareddau eraill a oedd ar gael. Roedd y plant yn gallu defnyddio technoleg fel rhan annatod o'u dysgu ac roedd hyn yn apelio i'w chwilfrydedd. Gwelsom y plant yn defnyddio datgelyddion metel maint plentyn i ymchwilio'r byd o'u cwmpas. Chwiliwyd drwy'r cypyrddau, ar y cadeiriau ac ymhlith y teganau ganddynt i ddarganfod beth oedd yn gwneud i'r datgelyddion wneud sŵn 'bîp' gan gael pleser mawr o'r darganfyddiadau hyn. Defnyddiwyd yr un datgelyddion metel yn dda yn ystod ein hymweliad canlynol hefyd, pan oedd y plant yn eu defnyddio yn yr hambwrdd tywod i chwilota am drysor wedi ei gladdu a oedd yn cysylltu'n dda â'u dysgu am fôr-ladron.

Mae’r plant o’r farn bod y cyfleoedd chwarae sydd ar gael iddynt yn gyffrous, yn ddifyr ac mae’r mwyafrif yn cyd-chwarae yn frwdfrydig.

### 1.5 Pa mor dda mae'r plant yn datblygu, dysgu a dod yn annibynnol?

Mae’r plant yn datblygu yn gorfforol, yn gymdeithasol ac yn datblygu annibyniaeth yn hyderus.

Mae gan y plant y cyfle i chwarae yn yr awyr agored yn rheolaidd, lle gallant ddatblygu yn gorfforol. Gwelsom blant yn rhedeg, yn cropian ac yn cydbwyso ar hyd trawst yn y man chwarae yn yr awyr agored. Daeth y plant atom i’n hysbysu eu bod yn dod i hyd i gemau ac yn eu casglu cyn i’r môr-leidr eu dwyn. Roedd hyn yn dangos faint yr oeddent wedi eu diddanu a’u hysgogi gan y chwarae dychmygus hwn, gan mai bagiau ffa o wahanol liwiau oedd y ‘gemau’ a llun sialc ar y ddaear oedd y ‘môr-leidr’. Roedd y plant yn cael pleser mawr o’r gweithgaredd hwn ac yn gweithio ar y cyd i ddod o hyd i’r gemau. Gwelsom y plant yn gwneud ‘diodydd môr-ladron’ fel gweithgaredd a oedd yn eu galluogi i ddatblygu eu sgiliau echddygol manwl gan eu bod yn torri, yn gwasgu ac yn stwnsio’r cynhwysion gyda’i gilydd. Roedd y plant hefyd yn gallu datblygu eu synhwyrau drwy’r mintys, y lemon a’r te a oedd yn cael eu defnyddio yn rhan o’r cynhwysion a oedd ar gael ac yn datblygu’n ieithyddol wrth ddefnyddio’r geiriau cysylltiedig. Anogwyd y plant i ddefnyddio’r toiled yn annibynnol a thacluso ar ddiwedd pob sesiwn a oedd yn helpu i ddatblygu eu hannibyniaeth.

Mae’r plant yn cael hwyl ac yn dysgu drwy eu chwarae ac yn cael boddhad o’r amrywiaeth o weithgareddau diddorol sydd ar gael iddynt.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae gan y staff wybodaeth gadarn am ddiogelu a Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan. Mae ganddynt rywfaint o ddealltwriaeth o sut i gadw plant yn ddiogel o ddydd i ddydd, ond nid yw'r polisïau'n cael eu gweithredu'n gyson bob amser. Mae gan y staff ddealltwriaeth gadarn o ddatblygiad plant, sut y gallai hyn effeithio ar ymddygiad plentyn ac yn gosod ffiniau realistig yn unol â hynny. Mae'r staff yn gyfranogwyr gweithredol yn chwarae'r plant ac maent yn cynnig esiampl o ymddygiadau cadarnhaol. Mae'r staff yn gweithredu egwyddorion y Cyfnod Sylfaen ac yn ceisio diwallu anghenion unigol y plant trwy arsylwi a gwerthuso eu chwarae.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda mae'r ymarferwyr yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r staff yn deall gweithdrefnau diogelu'r gwasanaeth ac mae ganddynt rywfaint o wybodaeth am hylendid bwyd a rheoli heintiau.

Cawsom sgwrs gydag aelod o staff a'r person â gofal am weithdrefnau diogelu ac amddiffyn plant. Roedd y ddau yn gwybod yn hyderus am y dangosyddion y dylent fod yn wyliadwrus yn eu cylch a'r broses briodol i'w dilyn pe bai ganddynt unrhyw bryderon am blentyn. Roedd y staff wedi cwblhau ffurflenni meddyginiaeth yn dda ond nid oeddent wedi cofnodi'r amser y rhoddwyd y dos diwethaf weithiau, sy'n bwysig i sicrhau diogelwch y plentyn. Roedd y staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau ar gyfer gwagio'r adeilad ond nid oeddent bob amser yn dilyn polisi'r gwasanaeth o ran diogelwch tân. Er enghraifft, trwy gadw drysau tân ar agor. Tynnwyd sylw'r person â gofal at hyn a rhoddwyd sylw i hyn erbyn ein hail ymweliad. Nodwyd gennym fod y mat newid cewynnau mewn un man newid cewynnau wedi ei ddifrodi a bod angen ei ddisodli gan y gellid gweld y llenwad sbwng. Dywedodd y person â gofal wrthym fod eraill ar gael ac y byddai hwn yn cael ei ddisodli ar unwaith.

Roedd y staff yn deall egwyddorion rheoli heintiau ond nid oedd hyn bob amser yn amlwg yn yr arferion. Nodwyd gennym yn ystod ein hymweliad cyntaf na wnaeth y plant na'r staff olchi eu dwylo, er iddynt wisgo ffedogau yn ystod amser byrbryd ac y glanhawyd y byrddau â chwistrell wrthfacteria. Gallai hyn effeithio ar iechyd y plant, yn enwedig gan mai'r weithdrefn bresennol yn ystod amser byrbryd yw i'r plant gymryd darn o ffrwyth yr un gyda'u dwylo o bowlen a gynigir iddynt gan eu ffrindiau. Rydym wedi hysbysu nad yw hwn yn arfer gorau cyfredol ac y dylid defnyddio teclynnau gweini a phlatiau. Nodwyd gennym yn ystod ein hail ymweliad y gofynnwyd i'r plant olchi eu dwylo cyn bwyta. Roedd yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf. Roedd y staff yn gwybod beth i'w wneud pan wnaeth plentyn ifanc daro ei ben a gwelsom fod ffurflenni damweiniau yn cael eu cwblhau'n llawn. Daethpwyd â'r rhan fwyaf o fwyd i'r gwasanaeth o adref; roedd bwyd a gyflenwid gan y gwasanaeth yn iach, yn dda o ran maeth y plant ac yn eu hannog i roi cynnig ar ffrwythau newydd. Dylai'r staff fod yn wyliadwrus o feintiau dognau a sicrhau bod y plant yn derbyn digon o ffrwythau i gyfrif fel un o'u pump y dydd.

Mae’r staff wedi ymrwymo i ddarparu canlyniadau cadarnhaol i’r plant ond mae’n rhaid iddynt sicrhau eu bod yn dilyn polisïau’r gwasanaeth yn gyson.

## 2.2 Pa mor dda mae'r ymarferwyr yn rheoli rhyngweithio?

Mae gan y staff ddull cyson ar gyfer rheoli ymddygiad y plant sy’n canolbwyntio ar y plentyn.

Ar y cyfan, prin oedd yr angen i’r staff darfu ar chwarae’r plant er mwyn rheoli ymddygiad. Gwelsom fod tri o gerbydau plant wedi mynd ynghlwm mewn un cornel o’r man chwarae awyr agored. Sylwodd y staff ar hyn gan gynorthwyo’r plant ar lafar i symud allan o ffyrdd ei gilydd fel nad oedd yn troi’n broblem o ran ymddygiad. Roedd y staff yn rhoi canmoliaeth reolaidd i’r plant am chwarae’n dda gyda’i gilydd; roedd yn amlwg bod y plant yn mwynhau cwmni ei gilydd ac yn cyd-dynnu.

Mae’r staff yn cynnig esiampl o ymddygiadau cadarnhaol ac yn cynorthwyo’r plant i ddod o hyd i atebion i’w problemau cyn iddynt waethygu.

## 2.3 Pa mor dda mae'r ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad y plant, ac yn bodloni eu hanghenion unigol?

Mae’r staff yn cynllunio ac yn darparu amrywiaeth dda o gyfleoedd chwarae a dysgu sy’n cyd-fynd ag egwyddorion y Cyfnod Sylfaen.

Roedd y staff yn ofalgar, yn cynorthwyo dewisiadau chwarae’r plant ac yn eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau newydd er mwyn dysgu sgiliau newydd. Roeddent yn hybu ymwybyddiaeth ddiwylliannol y plant trwy sesiynau ‘Cylch’ a oedd yn annog eu defnydd o’r Gymraeg. Roedd y staff yn cynllunio gweithgareddau ymlaen llaw ac yn paratoi’r ystafell, a oedd yn golygu y gallai’r plant gael eu diddanu’n gadarnhaol o’r eiliad yr oeddent yn cyrraedd. Roedd cofnodion datblygu yn cael eu cadw ar gyfer pob plentyn ac roedd cynnydd tuag at y canlyniadau a fwriadwyd yn cael eu cofnodi ar ôl i’r plant gymryd rhan mewn gweithgaredd a gynlluniwyd. Rhannodd y person â gofal asesiadau â ni a oedd yn dangos bod y plant yn cyflawni’n dda ac yn gwneud cynnydd yn ystod eu hamser yn y gwasanaeth. Roedd y staff yn ymwybodol o anghenion dysgu ychwanegol a sut y gellir cynorthwyo’r rhain os cânt eu nodi gyda chymorth asiantaethau allanol.

Mae’r staff yn creu cyfleoedd i’r plant ddysgu a datblygu’n llwyddiannus trwy chwarae.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae gan yr arweinwyr rai gweithdrefnau ar waith i asesu a monitro diogelwch y gwasanaeth, er bod angen rhoi ystyriaeth bellach i'r rhain er mwyn cael gwared ar risgiau diangen i'r plant. Maent wedi cynllunio amgylchedd sy'n diwallu anghenion y plant ac mae gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod yr adnoddau a'r offer yn briodol i gael eu defnyddio gan y plant.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd?

Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd sy'n ddiogel ar y cyfan.

Canfuwyd gennym wrth gyrraedd fod y safle yn ddiogel rhag mynediad o'r tu allan ac na chaniateir mynediad ond gan aelod o staff, a gofynnwyd i ni lofnodi cyn mynd i mewn. Canfuwyd gennym fod y teganau a'r offer mewn cyflwr addas i'r plant eu defnyddio. Canfuwyd gennym nad oedd rhai o'r offer a'r adnoddau mwy newydd yn yr ystafell fabanod yn cael eu defnyddio i wneud y gorau ohonynt a dylai'r arweinwyr a'r staff roi ystyriaeth i hyn. Roedd amddiffynwyr bysedd ar rai drysau i atal y plant rhag dal eu bysedd, ond nid oedd amddiffynwyr bysedd ar y drysau agosaf at doiledau'r plant, a oedd yn fan yr oedd y plant yn ei ddefnyddio'n aml. Trafodwyd hyn â'r person â gofal. Roedd digonedd o gadeiriau uchel a seddi hybu ar gael yn yr ystafell fabanod i'r plant allu eistedd a mwynhau eu prydau bwyd yn ddiogel. Er bod y cadeiriau uchel a'r harneisiau mewn cyflwr da, nodwyd gennym fod yr hambyrddau wedi treulio a bod angen eu disodli. Roedd ffenestr godi lefel isel wedi cael ei hagor ar y llawr uchaf ac roedd cwpwrdd wedi cael ei ddefnyddio i atal y plant rhag cael mynediad at y ffenestr agored. Nid oedd hyn yn gwbl addas a dylid chwilio am ddull arall o wneud y ffenestr yn ddiogel pan fydd ar agor. Roedd asesiadau risg ar waith ar gyfer y feithrinfa ac roedd y rhain wedi cael eu hadolygu gan y person â gofal yn 2018. Amlygodd trafodaethau gyda'r person â gofal y defnyddir cofnodion damweiniau fel dull gwybodaeth wrth ddiweddaru'r asesiadau risg a chael gwared ar beryglon posibl i'r plant. Roedd y man awyr agored yn ddiogel ac roedd y llawr diogelwch rwber yn cynnig arwyneb addas i'r plant ddatblygu yn gorfforol gan gadw'n ddiogel.

Mae angen i'r arweinwyr ystyried diogelwch yr amgylchedd ymhellach.

### 3.2 Pa mor dda mae'r arweinwyr yn sicrhau addasrwydd yr amgylchedd?

Mae angen i'r arweinwyr ddatblygu'r amgylchedd i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn amgylchedd croesawgar, cyfeillgar a chyfoethog ar gyfer chwarae a dysgu.

Canfuwyd gennym nad oedd yr amgylchedd yn adlewyrchu'r cyfleoedd chwarae a dysgu cadarnhaol yr oedd y plant yn eu derbyn yn y gwasanaeth hwn. Canfuwyd gennym fod yr amgylchedd awyr agored wedi ei gynnal a'i gadw'n dda a'i fod yn apelio at blant. Roedd adnoddau priodol ar gael yno, ac roedd yn helaeth ac yn ddiddorol. Roedd angen ailaddurno rhai rhannau o'r gwasanaeth. Canfuwyd waliau gennym yn agos at fannau a oedd yn cael eu defnyddio fel ffordd drwodd a oedd wedi eu marcio ac yr oedd paent wedi

cael ei grafu oddi arnynt. Roedd angen disodli carped a ddifrodwyd a oedd wedi cael ei drwsio dros dro â thâp ac roedd rhai eitemau o ddodrefn wedi treulio'n arw. Canfuwyd gennym nad oedd unrhyw gynllun cynnal a chadw parhaus ar waith. Cawsom sgwrs gyda'r person â gofal am hyn ac rydym yn deall o'r trafodaethau hynny bod gwaith ailaddurno a drefnwyd wedi cael ei oedi gan nad oedd yr addurnwr ar gael. Roedd yn amlwg bod rhywfaint o'r addurniadau'n eithaf hen. Er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn parhau i fod yn addas ac nad yw'n dirywio ymhellach, rydym yn argymell bod cynllun cynnal a chadw parhaus yn cael ei sefydlu i sicrhau bod meysydd o flaenoriaeth yn cael sylw gyntaf. Mae'r arweinwyr yn hybu annibyniaeth y plant trwy eu galluogi i archwilio llawr daear y safle yn ddirwystr. Mae pob ystafell yn canolbwyntio ar y plentyn ac mae dodrefn a theganau lefel isel ar gael i'r plant chwarae â nhw. Ceir digonedd o le i'r plant eistedd gyda'i gilydd fel grŵp neu i chwarae'n dawel pe baent yn dymuno.

Mae angen i'r arweinwyr sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei gynnal a'i gadw mewn ffordd sy'n cynnig awyrgylch cadarnhaol a chalonogol lle gall y plant ddysgu a datblygu.

### 3.3 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a'r offer?

Mae'r arweinwyr yn darparu dodrefn, teganau ac offer sy'n ddiogel, yn addas ac yn briodol i oedrannau'r plant.

Canfuwyd gennym fod digonedd o ddewis o deganau ac offer ar gael drwy'r gwasanaeth cyfan. Dywedodd y person â gofal wrthym fod y teganau yn cael eu glanhau bob hanner tymor fel mater o drefn, oni bai fod angen eu glanhau ynghynt, a bod unrhyw deganau sydd wedi eu difrodi neu wedi torri yn cael eu symud ar unwaith rhag iddynt gael eu defnyddio a naill ai'n cael eu trwsio neu eu taflu. Roedd gan y gwasanaeth amrywiaeth eang o deganau modern a chlasurol o gathod a cheir a reolir o bell i bosau jig-so pren mwy traddodiadol. Gwelsom fabanod yn chwarae ac yn mwynhau amrywiaeth o offerynnau cerddorol a oedd yn ystyriol o blant ac yn briodol ar gyfer eu hoedrannau. Roedd dwy gadair wthio fawr yn galluogi'r plant ifanc iawn i fynd allan am dro gyda'i gilydd yn y gymuned leol. Nodwyd gennym fod y gwregysau ar rai seddi ar y gadair wthio wedi eu difrodi a bod angen eu disodli. Dywedodd y staff wrthym fod y rhain wedi cael eu harchebu ac nad oedd y seddi hynny'n cael eu defnyddio yn y cyfamser. Roedd teganau ac offer yn y man awyr agored yn briodol ar gyfer camau datblygu'r plant ac mewn cyflwr da. Roedd plant iau na thair oedd wedi eu gwahardd rhag defnyddio offer chwarae mwy gan ddangos ymwybyddiaeth yr arweinwyr o gydymffurfio â'r rheoliadau diogelwch perthnasol. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gallu mynd at yr arweinwyr i ofyn am adnoddau ac offer newydd pan oedd eu hangen.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod amrywiaeth eang o adnoddau priodol ar gael i hwyluso chwarae a dysgu'r plant.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### Crynodeb

Mae’r arweinwyr yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o ddarparu’r gwasanaeth hwn ac yn ymdrechu i gynnal cydymffurfiaeth â’r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae gweithdrefnau hunanwerthuso ar waith sy’n nodi meysydd i’w gwella a’u datblygu. Mae’r arweinwyr yn rheoli’r staff yn effeithiol ac yn sicrhau bod gweithdrefnau recriwtio diogel yn cael eu dilyn. Mae’r arweinwyr yn darparu gwasanaeth sydd â phartneriaethau gwerthfawr gyda thimau Awdurdod Lleol ac a werthfawrogir gan y rhieni.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae’r arweinwyr yn ymroddedig i’r gwasanaeth y maent yn ei ddarparu ac wedi ymrwymo i sicrhau canlyniadau da i’r plant.

Mae gan yr arweinwyr weithdrefnau effeithiol ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â’r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae datganiad o ddiben manwl ar waith sy’n amlinellu nodau’r gwasanaeth yn eglur. Mae angen diwygio rhai rhannau o’r datganiad o ddiben ac rydym wedi tynnu sylw’r person â gofal at y rhain. Mae gan yr arweinwyr weledigaeth ar gyfer y gwasanaeth, ond nid adlewyrchir hyn yn arferion y staff bob amser ac mae angen i’r arweinwyr sicrhau bod polisïau sydd ar waith yn cael eu gweithredu’n llawn; gallai’r arweinwyr ystyried defnyddio cyfarfodydd tîm ac arsylwadau ar arferion staff at y diben hwn. Mae’r arweinwyr yn creu ethos cadarnhaol lle mae’r plant a’r staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac maent yn cydnabod y cyfraniad cadarnhaol y mae’r staff yn ei wneud i wireddu eu gweledigaeth ar gyfer y gwasanaeth.

Mae’r arweinyddiaeth yn drefnus ac yn effeithiol mewn llawer o ffyrdd.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunan-arfarnu a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae gan yr arweinwyr brosesau ar waith ar gyfer gwerthuso’r gwasanaeth a chynllunio ar gyfer gwelliannau.

Mae’r arweinwyr yn cymryd safbwyntiau’r rhieni, y plant ac ymwelwyr i ystyriaeth wrth asesu ansawdd eu gwasanaeth ac wrth gynllunio ar gyfer gwelliannau. Maent yn manteisio ar gyngor asiantaethau allanol fel y tîm Dechrau’n Deg ac yn gweithredu ar sail y cyngor a roddir. Mae’r arweinwyr yn nodi meysydd i’w gwella ac yn gwneud awgrymiadau realistig o ran sut y gellid cyflawni’r rhain ac o fewn cyfnod rhesymol.

Mae’r arweinwyr yn annog adborth gan rieni sy’n defnyddio’r gwasanaeth er mwyn ysgogi gwelliannau.

### 4.3 Pa mor effeithiol mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae gan yr arweinwyr weithdrefnau effeithiol ar waith i sicrhau bod recriwtio'n cael ei wneud mewn modd amserol a diogel.

Gofynnwyd gennym i gael gweld y ffeiliau staff ar gyfer y tri aelod o staff a recriwtiwyd ddiweddaraf. Roedd ffeiliau staff wedi cael eu llunio ar gyfer pob un ac yn cynnig manylion i ddangos eu bod wedi cael eu recriwtio yn drylwyr ac yn ddiogel. Roedd gan bob un o'r tri gymhwyster gofal plant Lefel 2 neu Lefel 3 ac roedd gan bob un archwiliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i brofi eu haddasrwydd i weithio gyda phlant. Dywedodd y staff wrthym eu bod wedi cael eu gwahodd i gyfweliad ac wedi derbyn cyfnod ymsefydlu ac wythnos o gysgodi yn y gwasanaeth cyn cael eu cynnwys yn y cymarebau staffio. Roedd cyfanswm o 29 o staff yn cael eu cyflogi gan y gwasanaeth, ac roedd matrics hyfforddiant yn sicrhau bod eu hanghenion hyfforddi yn cael eu monitro'n rhwydd a'u cadw'n gyfredol. Canfuwyd gennym fod yr arweinwyr wedi derbyn hyfforddiant gorfodol a bod yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf, hyfforddiant amddiffyn plant, hyfforddiant hylendid bwyd sylfaenol a bod yr holl staff wedi derbyn archwiliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae goruchwyliaeth ac arfarniadau i'r staff yn datblygu a dangoswyd cofnodion i ni fod rhai aelodau staff wedi derbyn goruchwyliaeth ac arfarniadau. Nid oedd yr holl staff wedi cael y cyfle hwn i ryngweithio ystyrlon gyda'r arweinwyr ar y pryd. Oherwydd ein canfyddiadau o ran staff yn methu gweithredu polisïau, dylai hon bellach fod yn flaenoriaeth i'r arweinwyr.

Mae'r arweinwyr yn systematig ac yn drefnus sy'n golygu bod cymarebau staffio yn cael eu cynnal gyda staff cymwysedig.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r arweinwyr yn hybu ac yn cydnabod gwerth partneriaethau cadarnhaol.

Mae'r arweinwyr yn cyfathrebu'n dda â'r rhieni, gan anfon cylchlythyrau gwybodaeth rheolaidd atynt i sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf. Roedd rhieni wedi cael eu gwahodd i mewn i'r gwasanaeth yn ystod amser y Nadolig i wrando ar y plant yn canu, ac er mwyn bod yn gynhwysol gwahoddwyd unrhyw blant nad oeddent yn defnyddio'r gwasanaeth fel rheol ar y dyddiad hwnnw i fod yn bresennol hefyd ac ymuno yn y canu. Roedd rhieni'r plant iau yn derbyn gohebiaeth ysgrifenedig ddyddiol a oedd yn cynnig manylion gweithgareddau, bwyd, amseroedd cysgu a chewynnau eu plant trwy gydol y dydd. Cawsom sgyrsiau â dau o rieni a oedd â llawer o sylwadau cadarnhaol i'w gwneud ac a oedd yn hapus gyda'r gwasanaeth yr oeddent yn ei dderbyn. Mae'r arweinwyr wedi datblygu partneriaethau cadarnhaol gydag athrawon cynghorol yr Awdurdod Lleol a Chymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru. Gwelsom gynrychiolydd o'r Gymdeithas yn cynnig esiampl o sesiwn chwarae awyr agored 'Chwilota am Eirth' i'r staff i gynorthwyo eu datblygiad proffesiynol. Roeddem yn falch o weld y cymorth hwn ar waith. Mae'r arweinwyr yn gwerthfawrogi cyfraniadau'r gymuned ac yn cysylltu'r rhain â dysgu'r plant. Er enghraifft, roedd y thema Môr-ladron a Môr-forynion wedi cael ei chymell gan wythnos Môr-ladron a oedd yn cael ei chynnal yn lleol yr oedd llawer o'r plant wedi bod ynddi.

Mae’r arweinwyr yn ymroddedig i ddiwallu anghenion y plant ac anghenion partneriaethau cysylltiedig.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac argymhellion yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd gan arolygiadau blaenorol

***Regulation 29 (3)(a)*** *Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010,* mae'n rhaid i'r arweinydd sicrhau bod yr holl ymarferwyr sy'n gofalu am blant perthnasol yn derbyn goruchwyliaeth ac arfarniadau priodol er mwyn gwella eu harferion a nodi gofynion ac anghenion hyfforddi.

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Rydym yn argymell y dylai'r darparwyr cofrestredig wneud y canlynol:

- Ailystyried y gweithdrefnau byrbryd presennol i sicrhau nad oes unrhyw groeshalogi i fyrbryd y plant o ddwylo plant eraill
- Sicrhau bod y staff yn dilyn arferion hylendid da cyn amser bwyd a byrbrydau gan olchi eu dwylo eu hunain a chynorthwyo'r plant i wneud yr un fath
- Ystyried pryd y gellir defnyddio cerddoriaeth yn effeithiol a dewis cerddoriaeth addas yn unol â hynny. Er enghraifft, can ar gyfer amser tacluso neu gerddoriaeth tawelu i'w chwarae yn ystod amser byrbryd
- Ystyried maint dognau i sicrhau bod y plant yn derbyn digon o ffrwythau i gyfrif fel un o'u 'pump y dydd' o ddognau ffrwythau
- Rhoi gweithdrefnau ar waith i archwilio yn feunyddiol a thrwy gydol y dydd fod drysau tân yn aros ar gau a bod allanfeydd tân yn cael eu cadw'n glir
- Cynnwys map corff ar y ffurflenni damweiniau a digwyddiadau i gadw cofnod cywir o lle y gallai unrhyw anaf fod wedi digwydd
- Disodli matiau newid cewynnau i atal y perygl o halogi gan eu bod wedi eu difrodi
- Gosod amddiffynwyr bysedd ar ddrysau y mae gan y plant fynediad atynt er mwyn sicrhau bod y perygl o ddamweiniau cyn lleied â phosibl
- Monitro ffurflenni meddyginiaeth i sicrhau bod yr amser y rhoddwyd y dos diwethaf o'r feddyginiaeth yn cael ei gofnodi bob amser i sicrhau bod unrhyw risg cyn lleied â phosibl
- Ystyried datblygu rhaglen cynnal a chadw barhaus ar gyfer gwelliannau mewnol ac ailaddurno i sicrhau nad yw'r amgylchedd yn dirywio ymhellach
- Datblygu dull o wneud y ffenestri i fyny'r grisiau yn fwy diogel pan fydd y ffenestr ar agor

- Neilltuo amser i'r person â gofal, i ffwrdd o'r gwaith ymarferol o ddarparu gofal, i fyfyrio ar arferion cyfredol a gwneud arsylwadau o brofiadau'r plant o ddydd i ddydd, er mwyn manteisio ar arfer da a fodelir gan y staff a chynorthwyo staff eraill i ddatblygu o ran gweithredu polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth

- Defnyddio cyfarfodydd tîm i gerdded o gwmpas yr amgylchedd ac ystyried meysydd o flaenoriaeth ar gyfer gwella

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Arolygiad llawn, dirybudd oedd hwn a gynhaliwyd yn rhan o'n hamserlen arferol o arolygiadau. Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 8 Mehefin rhwng 12.40 a 6.10pm. Cynhaliodd yr un arolygydd ymweliad arall lle rhoddwyd rhybudd ar 11 Mehefin rhwng 9pm a 12.30pm.

Gwnaed y canlynol gennym:

- Arolygu sampl o ddogfennau a pholisïau
- Arsylwi ar arferion a chwblhau arsylwadau i gael tystiolaeth o ymgysylltiad y plant a'r gofal a oedd yn cael ei ddarparu gan y staff
- Sgwrsio â'r plant, dau o rieni a'r staff a oedd yn bresennol
- Ystyried diogelwch ac addasrwydd yr amgylchedd ar gyfer y plant

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd i Blant**<br>**Gofal Dydd Llawn** |
| **Person Cofrestredig** | **Pauline Wilson** |
| **Person â gofal** | **Pauline Wilson** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **65** |
| **Ystod oedran y plant** | **0–12 mlwydd oed** |
| **Oriau agor** | **8.30am – 6pm o ddydd Llun i ddydd Gwener gan gau ar wyliau banc ac am wythnos dros y Nadolig.**<br>**Mae sesiynau cylch chwarae ar gael rhwng 9am a 11.30am a 1pm a 3.30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod tymor yr ysgol.** |
| **Iaith gweithredu'r gwasanaeth** | **Saesneg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **4 Mai 2016** |
| **Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hyn** | **8 Mehefin 2018 a 11 Mehefin 2018** |
| **Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Ydy, mae'r gwasanaeth hwn yn cynnig darpariaeth Dechrau'n Deg.** |
| **A yw addysg y blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair blwydd oed yn cael ei darparu yn y gwasanaeth?** | **Ydy, mae'r gwasanaeth hwn yn darparu addysg y blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair blwydd oed.** |
| **Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg?** | **Nac ydy, nid yw'r gwasanaeth yn gweithredu'r 'Cynnig Gweithredol' o ran y Gymraeg, sy'n golygu na all rhieni a phlant gael mynediad at y gwasanaeth a'i bolisïau trwy gyfrwng y Gymraeg heb orfod gofyn amdano.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |